

## PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MERCHER, 18 IONAWR 2023

Yn  
bressenol: Cynghorydd Wong(Cadeirydd)

Cynghorwyr Berman, Brown-Reckless, Cunnah, Henshaw,  
Jenkins, Lloyd Jones a/ac Thomson

### 52 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Naughton.

### 53 : DATGANIADAU BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Wong fuddiant personol yn Eitem 3 fel Cadeirydd Llywodraethwyr yn Ysgol Uwchradd Cathays.

Datganodd y Cynghorydd Brown-Reckless fuddiant personol fel defnyddiwr cyfleusterau yn y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol.

### 54 : PENTREF CHWARAEON RHYNGWLADOL

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn galluogi'r Pwyllgor i gynnal craffu cyn penderfyniad ar yr adroddiad i'r Cabinet, sydd ynghlwm wrth Atodiad A'r papurau.

Nodir cwmpas y craffu ar bwynt 4 yr adroddiad clawr ac mae'n cynnwys archwilio'r cynigion yn yr adroddiad i'r Cabinet yn ogystal â phrofi'r goblygiadau ariannol, cyfreithiol a risg i'r Cyngor, beth yw'r camau nesaf, a'r argymhellion i'r Cabinet.

Mae'r eitem hon yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn Atodiadau 2,3, a 5-13 o Atodiad A, atgoffwyd yr Aelodau i beidio â chyfeirio at y rhain mewn sesiwn agored.

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Russell Goodway - Aelod Cabinet - Buddsoddi a Datblygu
- Neil Hanratty - Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Chris Barnett - Rheolwr Gweithredol - Prosiectau Mawr
- Jo-Anne Phillips - Rheolwr Prosiect

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad, ac ar ôl hynny gofynnwyd i Swyddogion wneud eu cyflwyniad gyda'r sleidiau cyhoeddus.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau. Strategaeth Gwaredu

Croesawodd yr aelodau'r strategaeth waredu arfaethedig ar gyfer lleiniau preswyl a masnachol. Nododd yr aelodau:

- bydd y dull hybrid arfaethedig yn galluogi'r prif ddatblygwr i sicrhau dull cynhwysfawr ar draws y safle sy'n bodloni uwchgyllun y Cyngor, er enghraifft ymyl Bae unffurf
- bydd y contract yn cynnwys cyfnodau atal 12 mis o hyd o fewn rhaglen 5 mlynedd gyffredinol, i alluogi'r Cyngor i fonitro cynnydd gan y prif ddatblygwr a mynd i'r afael â diffyg darpariaeth.

#### Cyrchfan Hamdden

Nododd yr aelodau mai'r ddadl dros Achos Busnes Llawn ar gyfer y gyrchfan hamdden gyfan yw y bydd hyn yn rhoi sicrwydd y bydd yr holl elfennau'n cael eu cyflawni.

Nododd yr aelodau y bydd yn rhaid i bob elfen bentyrru'n unigol ac yn gyffredinol, ac y bydd angen i'r Achos Busnes Llawn ddangos hyn.

#### Strategaeth Gweithredwr

Nododd yr aelodau fod yr adroddiad i'r Cabinet yn gofyn am gymeradwyaeth i benodi gweithredwyr ar gyfer Arena lâ a'r Felodrom, fel y nodir yn Atodiad Cyfrinachol 5. Nododd yr aelodau y byddai hyn yn galluogi cwblhau'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y Gyrchfan Hamdden.

#### Felodrom

Ceisiodd yr aelodau ddeall yr effaith ar elfen cyrchfan hamdden y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol os nad oedd y Felodrom yn mynd ymlaen. Nododd yr aelodau y byddai'r Cyngor yn chwilio am atyniadau eraill ar gyfer y safle a bod Swyddogion yn siŵr y byddai cynnig hyfyw arall yn dod yn ei flaen.

Bu'r aelodau'n archwilio'r gwaith gyda grwpiau beicio lleol, cyrff llywodraethu beicio, a grwpiau chwaraeon eraill, ynglŷn â dyluniad y felodrom, ac roeddent yn awyddus i ddeall a yw'r pryderon ar hyn, sydd wedi'u codi gydag Aelodau, wedi cael sylw. Nododd yr aelodau:

- cynhaliwyd gweithdy i alluogi grwpiau beicio lleol, cyrff llywodraethu beicio, a grwpiau chwaraeon eraill i siarad yn uniongyrchol â dylunydd y trac a thrafod unrhyw bryderon oedd ganddynt
- barn swyddogion yw bod y gweithdy wedi bod yn gadarnhaol, gyda llawer o'r mynychwyr yn cael sicrwydd gan yr ymatebion a gafwyd; Mae gan Maindy Flyers rai pryderon o hyd ac mae gweithdai pellach yn cael eu cynnal i alluogi deialog barhaus
- Mae'r dylunydd trac wedi rhoi sicrwydd bod y dyluniad arfaethedig yn gallu cael ei ddefnyddio gan feiciau ffordd a thrac, pob oedran a phob gallu
- Mae'r dyluniad arfaethedig yn cynnwys maes mewnol, yng nghanol y felodrom, sy'n lefel ac sy'n gallu cael ei ddefnyddio gan ddechreuwyr.

Nododd yr aelodau honiad swyddog mai'r bwriad o hyd yw darparu'r felodrom yn y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol cyn i Felodrom Maendy gael ei ddad-gomisiynu, yn amodol ar benderfyniad y Comisiwn Elusennau. Nododd yr aelodau fod Swyddogion yn gofyn am eglurhad o beth fyddai effaith penderfyniad gohiriedig y Comisiwn Elusennau, ynglŷn â materion Tir Ymddiriedolaeth Maendy, ar y Rhaglen Sefydliad

Ysgolion ac a fyddai sgil-effaith ar felodrom y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol. Gofynnodd yr aelodau iddynt gael eu cadw'n hysbys o ddatblygiadau yn y maes hwn.

Diolchodd yr aelodau i Neil Hanratty am ei eglurhad y byddai cyfle i'r pwyllgor hwn graffu'n fanwl ar y cynigion felodrom pan ddaw'r Achos Busnes Llawn ymlaen.

#### Strategaeth ynni

Croesawodd yr aelodau'r ffocws arfaethedig ar ynni gwyrdd ar gyfer y safle PChRh. O ran y defnydd posib o ynni tyrbinau gwynt, gofynnodd yr Aelodau i swyddogion siarad gyda chymuned hwylio Bae Caerdydd er mwyn deall unrhyw effaith ar eu gweithgareddau y gallai hyn achosi.

#### Sefydliad Rheoli Sengl

Ceisiodd yr aelodau ddeall sut y byddai'r gwahanol agweddau ar hyn yn gweithio'n ymarferol. Roedd yr aelodau'n cydnabod bod angen gwaith pellach i roi eglurder ar fanylion penodol; roedd gan aelodau ddiddordeb archwilio hyn yn fanylach pan ddaw'r Achos Busnes Amlinellol i'r Cabinet, gan gynnwys archwilio trefniadau llywodraethu arfaethedig.

#### Parcio a Theithio / Maes Parcio Aml-lawr

Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn deall y cynigion ar gyfer Maes Parcio Aml-lawr a Pharcio a Theithio a chydnabuwyd mai dim ond pan fydd gwaith ar yr Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn wedi'i gwblhau y gellid mynd i'r afael â llawer o bryderon penodol yr Aelodau; felly, mae'r Aelodau'n aros am ragor o wybodaeth o'r rhain. Pan ddaw'r rhain gerbron y Pwyllgor, mae'r Aelodau yn dymuno derbyn gwybodaeth am:

- yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda busnes ar y drefn codi tâl er mwyn deall effeithiau posibl ar fusnesau presennol a newydd
- cysondeb y drefn codi tâl arfaethedig gyda chyfundrefnau codi tâl eraill yn gweithredu yng Nghaerdydd.

Roedd yr aelodau hefyd yn awyddus i ddeall y rhesymeg dros gyfleuster parcio a theithio yn y PChRh a sut mae hyn yn cyd-fynd â Strategaeth Parcio a Theithio a Strategaeth Drafnidiaeth ehangach y Cyngor. Amlygodd Zack Hellard, cynrychiolydd y Cyngor leuenctid, yr angen i gyfathrebu opsiynau trafndiaeth sydd ar gael yn effeithiol gyda chymunedau fel eu bod yn gwybod y dewisiadau sydd ar gael iddynt a hefyd i gyfathrebu'n effeithiol â defnyddwyr bysiau ynghylch newidiadau posibl i lwybrau bysiau. Nododd yr aelodau y byddai hyn yn dod o dan orchwyl y Pwyllgor Craffu Amgylchedd a byddai'r pwyntiau hyn yn cael eu trosglwyddo.

#### Rhaglennu Cynhwysol

Croesawodd yr Aelodau'r gwaith i sicrhau bod y PChRh yn arwain at fwy o bobl o gymunedau lleol, grwpiau cymunedol ac ysgolion yn defnyddio'r cyfleusterau hamdden a chwaraeon, fel yr amlygwyd yn yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad 14 yr adroddiad i'r Cabinet.

#### Buddion i'r Gymuned

Croesawodd yr aelodau a nodwyd:

- bydd polisïau darpariaeth tai cymdeithasol a fforddiadwy'r Cyngor yn berthnasol i'r PChRh
- Gellir darparu cyfleusterau iechyd ar y safle, trwy unedau Llawr Gwaelod, ac mae hyn yn rhan o'r dull uwchgyllun
- Mae swyddogion yn gweithio i gyflawni cytundebau A106 sy'n daladwy heb sbardunau lefel deiliadaeth.

#### Risgiau

Nododd yr aelodau y gall y Cyngor reoli a lliniaru risg ond na all gael gwared ar risg yn llwyr.

#### Cyllideb

Nododd aelodau'r gwariant ar y gyllideb fel y nodir yn Atodiad Cyfrinachol 13, sy'n ofynnol i alluogi datblygu'r gwahanol Achosion Busnesau a cheisiadau cynllunio sydd eu hangen i symud i gam nesaf y PChRh.

PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o'r pwynt hwn gan fod y wybodaeth sydd i'w thrafod yn gyfrinachol gan y Pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 ac 16 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

#### 55 : LLUNIO ADFERIAD ECONOMAIDD CAERDYDD AR ÔL Y PANDEMIG

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad drafft ar gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor Llunio Adferiad Economaidd Ôl-bandemig Caerdydd, y mae'r Cadeirydd a'r Cynghorwyr Berman, Henshaw, Jenkins, Lloyd Jones wedi'i gynnal, gyda'r Cynghorydd Robinson yn cyfrannu at y cwmpas cychwynol a'r cylch gorchwyl, yn cael ei ystyried er mwyn galluogi'r Pwyllgor cyfan i ystyried yr adroddiad a nodi unrhyw ddiwygiadau, cyn cytuno ar yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cabinet.

Amlinellodd y Prif Swyddog Craffu'r pwyntiau allweddol o'r adroddiad clawr gan gynnwys y canfyddiadau a'r argymhellion allweddol.

Roedd yr aelodau am gydnabod gwaith caled y Prif Swyddog Craffu yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: cymeradwyo'r adroddiad i'w gyflwyno i'r Cabinet.

#### 56 : BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD - TROSOLWG A CHRAFFU AR Y CYD - ADRODDIAD DIWEDDARU

Fe gafodd aelodau wybod bod yr eitem hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am waith Pwyllgor Craffu'r Fargen Ddinesig.

Roedd y Prif Swyddog Craffu yn amlinellu'r adroddiad ar gyfer Aelodau.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

57 : DIWEDDARIAD GOHEBU

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad ac i ofyn i'r Prif Swyddog Craffu ofyn am ymateb i'r wybodaeth sy'n weddill ynglŷn â'r llythyr cyfrinachol parthed Neuadd Dewi Sant.

58 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

59 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

28/02/23 am 2.00pm – Craffu ar y Gyllideb

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20 pm